

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 23 Tachwedd, 2015 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mr E Ll Owen, (Benllech B), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mrs J Peers, (Llanbedrgoch), Mr I Williams, (Benllech B), Miss N Williams, (Benllech B).

110 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mrs D Roberts, (Benllech B).

111 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Hydref, 2015.

LLWYBRAU, FFYRDD A PHALMENTYDD

112 CYNGOR SIR YNYS MÔN - YMATEB I FATERION PRIFFYRDD

Cyflwynwyd er gwybodaeth - gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a oedd yn ymateb i faterion priffyrdd a gyfeiriwyd ato gan y Cyngor Cymuned.

113 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan aelodau – amrywiol faterion a oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

114 EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU 2017 - APÊL ARIANNOL.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017 yn annog Cyngor Cymuned Llanfair M.E. i ymgymryd â'r dasg o godi arian tuag at y Brifwyl.

115 CYNGOR SIR YNYS MÔN - PWYLLGOR SAFONAU.

Cyflwynwyd - cenadwri gan y Swyddog Monitro fod enwebiadau wedi ei derbyn ar gyfer llenwi'r ddwy sedd wag i aelodau Cyngorau Tref a Chymuned ar Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae gofyn dewis dau o'r enwebiadau ac anfon cynrychiolydd i bleidleisio mewn cyfarfod arbennig wedi ei drefnu gan Un Llais Cymru ar y 1 o Ragfyr 2015 yn Siambr y Cyngor Sir yn Llangefni lle bydd pleidlais gudd yn cymryd lle.

PENDERFYNWYD – dewis Y Cynghorydd Clive McGregor a'r Cynghorydd Eric Roberts i'r Pwyllgor Safonau a gofyn i'r Cadeirydd gynrychioli'r Cyngor Cymuned yn y bleidlais.

116 FFORWM CYSWLLT CYNGHORAU TREF A CHYMUNED.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – cofnodion o gyfarfod o'r Fforwm a gynhaliwyd ar y 9 o Orffennaf 2015 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor Sir, Llangefni.

117 MEDRWN MÔN - NODYN O WAHODDIAD.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - nodyn o wahoddiad gan ddim hyrwyddo ail-gylchu Cyngor Sir Ynys Môn yn datgan eu parodrwydd i fynd at grwpiau a sefydliadau i wneud cyflwyniadau.

118 GRANTIAU A RHODDION.

Cais am grant gan y canlynol :-

(i) Cadwch Gymru'n Daclus.

PENDERFYNWYD – gadael y cais ar y bwrdd.

BILIAU A CHYFRIFON

119 BILIAU

PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Accounting		
Eira Fôn Parry	Gwasanaeth Cyfieithu	£50-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
Yr Apêl Pabi.	Blodeudorch	£25-00

Grŵp Chwarae Benllech Andrew Druce	Bwrdd Picnic Gwaith Cerrig yn Waun Dirion	£200-00 £200-00
--	---	------------------------

120 CYFRIFON

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) yn Hydref, 2015.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.

121 CYLLIDEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2015 i ddiwedd mis Hydref, 2015.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

122 GWASANAETH LLYFRGELLOEDD YNYS MÔN - YMGYNGHORIAD.

Gan fod nam ar gyfrifiadur y Cyngor Cymuned nid oedd wedi body n bosib anfon y ddogfen ymgynghori i'r aelodau gyda'r Rhaglen. Rhoddwyd copi o'r ddogfen i bob aelod yn ystod y cyfarfod a phenderfynwyd y buasai yn haws cwblhau'r ymgynghoriad ar y we fel unigolion.

123 CORFF LLYWODRAETHU YSGOL LLANBEDRGOCH.

Trafodwyd y llythyr a dderbyniwyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Llanbedrgoch parthed cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar y Corff Llywodraethol, sef, Mr Elwyn Lloyd Owen. Eglurwyd yn y llythyr nad oedd Mr Owen wedi mynychu cyfarfodydd o'r Corff Llywodraethol ers dros ddwy flynedd a gofynnwyd os nad oedd Mr Owen yn dymuno parhau fel cynrychiolydd, a fuasai'r Cyngor Cymuned yn dewis aelod arall fel cynrychiolydd.

Eglurodd y Clerc ei fod wedi siarad â Mr Owen parthed y mater. Roedd Mr Owen wedi bod dan gam argraff nad oedd yn gynrychiolydd yn dilyn

etholiad Mai 2013 pan gollodd sedd Llanbedrgoch. Cafodd ei gyfethol i sedd Benllech B mewn ychydig wedyn. Yn ogystal buasai Mr Owen yn dymuno parhau fel cynrychiolydd y Cyngor Cymuned.

Hefyd cyn i'r Cyngor Cymuned ddewis cynrychiolydd newydd i'r Corff Llywodraethol mae'n rhaid cael cadarnhad ysgrifenedig gan y Corff Llywodraethol o'r canlynol (Rhan 4 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005) :-

(i) hysbysu'r sawl sydd wedi ei enwi yn y cynnig o'r cynnig a'r cyfle i ymateb yn ysgrifenedig.

(ii) trafod y cynnig a'r ymateb mewn cyfarfod llawn o'r Corff Llywodraethu gan ddod i benderfyniad.

(iii) os penderfynir diswyddo'r person yna ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r penderfyniad.

(iv) gofyn i'r Cyngor Cymuned am enwebiad i'r Corff gan nodi bod y sawl sydd wedi ei ddiswyddo ddim yn cael bod yn Llywodraethwr yn yr Ysgol am y 12 mis nesaf.

PENDERFYNWYD – ateb llythyr y Corff Llywodraethu gan fanylu'r pwyntiau uchod.

(Datganodd Mr E Ll Owen ddiddordeb yn yr eitem yma ac nid oedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau a'r pleidleisio ar yr mater)

124 CYMORTH CYNLLUNIO CYMRU – GWEITHDY DIWEDDAR.

Y pwyntiau canlynol a gaeth y prif sylw yn y gweithdy diweddar a gynhaliwyd yn Llangefni gan Gymorth Cynllunio Cymru ;

Pan fydd Cyngor Cymuned yn caniatáu neu wrthwynebu cais cynllunio, dylid adrodd y polisi / polisiau perthnasol.

Os bydd cais cynllunio yn cael ei wrthod gan y Cyngor Cymuned ond ei ganiatáu gan yr Adran Gynllunio, Cyngor Sir Ynys Môn. Dylai Swyddog yr Adran Gynllunio anfon adroddiad drwy e-bost yn manylu rhesymau a pholisiau pam y caniatawyd y cais.

Yn y dyfodol awgrymir y bydd yn bosib i'r Cynghorau Cymuned lunio polisiau i'w dalgylch.

Disgwylir cyflwyno “Ymgynghoriad Cymunedol Cyn Cais Cynllunio” gan ddatblygwyr cynlluniau sylweddol.

125 NEUADD GYMUNED A CHYN FILWYR BENLLECH.

Yn dilyn cais gan un o swyddogion y Neuadd Gymuned am ganiatâd i ddefnyddio rhan o faes parcio Waun Dirion i bwrpas gosod cylchdro ceffylau bach i blant ar ddiwrnod Ffair Nadolig y Neuadd.

PENDERFYNWYD - caniatáu'r cais.

126 PLAS GLANRAFON BENLLECH.

Ar ôl cwblhau eitemau 1 i 4 ar y Rhaglen symudwyd ymlaen i gyflwyniad gan gwmni McCarthy a Stone sydd yn bwriadu ail ddatblygu safle Gwesty Plas Glanrafon i 35 o gartrefi ymddeol gyda chyfleusterau atyniadol. Eglurodd y Cadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod y buasai yn caniatáu un neu ddau o gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd a oedd yn bresennol.

I gychwyn cafwyd braslun gan un o gynrychiolwyr McCarthy a Stone pam ei bod eisiau sefydlu ym Menllech a'u cynlluniau i ehangu yng ngogledd Cymru. I ddilyn fe wnaeth pensaer y cynllun egluro yn fanwl yr adeilad bwriedid a'r gwahanol agweddau o fyw mewn adeilad o'r fath. Cafwyd cwestiynau ar ddiwedd cyflwyniad y pensaer yn amrywio o effaith llifogydd ar y safle, parcio ar y safle ac ar yr ymylon ynghyd a chyflogi gweithwyr lleol wrth adeiladu'r safle a fydd yn cymryd oddeutu tri mis ar ddeg.

Ar y cyfan caeth y cyflwyniad ei dderbyn yn ffafriol.

127 GWASANAETH TAN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU.

Trafodwyd y ddogfen ymgynghori gyhoeddus ar ddyfodol Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r Gwasanaeth yn costio £32 miliwn y flwyddyn i'w redeg sydd yn cyfateb i £46 y pen i bob un o drigolion Gogledd Cymru ac yn cael ei ariannu gan y chwe Chyngor Sir o fewn Gogledd Cymru.

Prif amcanion y Gwasanaeth yw, parhau gyda helpu i gadw pobl yn ddiogel rhag tannau yn eu cartrefi. Yn ail, gweithio'n galed i wneud eu cyllideb fynd ymhellach fel nad oes angen gofyn i'r Cynghorau Sir am gyfraniadau uwch, ac yn drydydd, dal i amddiffyn holl gymunedau Gogledd Cymru gyda gwell cynllunio.

Mae gwell cynllunio yn seiliedig ar gadw'r gorsafoedd tan bresennol, Cael cymysgiad o griwiau ar y peiriannau, sef diffoddwyr llawn amser a rhan amser, gan ei bod yn ofynnol cael pedwar diffoddwr ar bob peiriant o dan reolau iechyd a diogelwch. Cael mwy o ddiffoddwyr yn hyblyg eu lleoliad a'i symudiad o fewn ardaloedd.

PENDERFYNWYD – y teimlad cyffredinol nad oedd y cynllunio yn rhoi sicrwydd y buasai criw ymateb ar gael ymhob sefyllfa ond o dan yr amgylchiadau ariannol presennol nad oedd gwell cynllun yn bosib.

CYNLLUNIO

128 PENDERFYNIADAU

Adroddwyd er gwybodaeth - penderfyniadau cynllunio diweddar Gyngor Sir Ynys Môn.

Terfynwyd y cyfarfod am 8-30 yr hwyr.